

CYNGOR TREF CRICCIETH

RHEOLAU SEFYDLOG

Mabwysiadwyd y Rheolau Sefydlog hyn gan y Cyngor yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 14 o Fai 2018.

1. Cadeirydd

1.1 Etholir y Cadeirydd gan y Cyngor o blith aelodau'r Cyngor Tref.

1.2 Os etholir rhywun yn Gadeirydd i lenwi gwagle damweiniol, fel na g/chafodd flwyddyn lawn yn swydd y Cadeirydd, ni fydd hynny'n rhwystr i benodi'r Cynghorydd honno/hwnnw'n Gadeirydd am flwyddyn lawn yn ei thro/dro.

2. Is-gadeirydd

2.1 Etholir gan y Cyngor Tref un o aelodau'r Cyngor Tref yn Is-gadeirydd.

2.2. Os bydd y Cadeirydd am unrhyw reswm yn methu gweithredu, neu os bydd swydd y Cadeirydd yn wag, caiff yr Is-gadeirydd gyflawni pob gorchwyl y gallai'r Cadeirydd fel y cyfryw ei ch/gyflawni.

3. Cyfarfodydd

3.1 Cynhelir cyfarfodydd o'r Cyngor ar yr ail ddydd Mawrth o'r mis am 7 yr hwyr oni benderfynodd y Cyngor yn wahanol mewn cyfarfod cynharach.

3.2 Mewn blwyddyn etholiad cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar y dydd ym mis Mai a benodir gan y Cyngor

3.3 Dri diwrnod llawn cyn cyfarfod y Cyngor:

3.3.1 Yn unol â dewis cynghorwyr unigol, rhaid gadael ym mhreswylfod pob Cynghorydd, neu anfon yno drwy'r post neu ar e-bost, wŷs i'r Cynghorydd i ddod i gyfarfod, a honno wedi'i harwyddo gan swyddog priodol y Cyngor ac yn rhestru'r gwaith y bwriedir ei wneud yn y cyfarfod.

3.3.2 Nid yw'r isafswm o dri diwrnod llawn ar gyfer hysbysiad am gyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno, diwrnod y cyfarfod, dydd Sul, diwrnodau gwyliau'r Nadolig, diwrnodau gwyliau'r Pasg neu ŵyl banc neu ddiwrnod a bennwyd ar gyfer diolchgarwch neu alaru cyhoeddus.

3.3.3 Nid yw'r isafswm o dri diwrnod llawn ar gyfer hysbysiad cyhoeddus am gyfarfod yn cynnwys y diwrnod y cyhoeddwyd yr hysbysiad arno na diwrnod y cyfarfod oni bai y caiff y cyfarfod ei gynnwys ar rybudd byrach.

3.3.4 Ni wneir cyfarfod yn annilys am fod rhyw Gynghorydd heb dderbyn gŵys yn unol ag is-baragraff 3.3.1 uchod.

3.4 Pan bydd Cynghorydd yn cynrychioli'r Cyngor mewn unrhyw gyfarfod, pwyllgor neu Gynhadledd – pan fo'n briodol, disgwylir adroddiad ysgrifenedig neu ar lafar yng nghyfarfod dilynol y Cyngor.

4. Cworwm i Gynnal Cyfarfodydd 2

4.1 6 Cynghorydd fydd cworwm: gall y Cyngor benderfynu ar nifer yn ôl maint y Cyngor, ond ni cheir mabwysiadu cynnig i atal y rheolau sefydlog heb gytundeb dwy ran o dair o'r rhai sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

4.2 Os na fydd cworwm yn bresennol pan ddaw'r Cyngor ynghyd, neu os yw nifer y Cyngorwyr yn llai na'r cworwm yn ystod y cyfarfod, trafodir y materion nas trafodwyd yn y cyfarfod naill ai yn y cyfarfod nesaf neu ar y diwrnod a bennir gan y Cadeirydd.

5. Datgan Diddordeb gan Gynghorwyr

5.1 Mae'r gyfraith yn gwneud darpariaeth benodol sy'n gwneud yn ofynnol i gynghorwyr ddatgelu diddordebau ariannol uniongyrchol (gan gynnwys diddordebau priod/partner) a all fod ganddynt mewn unrhyw fater a ddaw gerbron y Cyngor, pwyllgor neu is-bwyllgor. Mae'n gwahardd cynghorwyr rhag siarad neu bleidleisio ar y mater hwnnw. Rhaid i gynghorwyr hefyd, yn ôl y gyfraith, ddatgan rhai diddordebau ariannol. Rhaid ufuddhau'n gydwobodol i'r gofynion hyn bob amser.

5.2 Gall diddordebau nad ydynt yn ariannol fod yr un mor bwysig. Ni ddylau cynghorwyr ganiatáu i'r argraff gael ei chreu bod, neu y gallent fod, yn defnyddio'i safle i hyrwyddo diddordeb preifat neu bersonol, yn hytrach na hybu diddordeb cyhoeddus cyffredin. Mae diddordebau preifat neu bersonol yn cynnwys rhai ei teulu a'i cyfeillion yn ogystal â rhai'n codi drwy aelodaeth, neu berthynas â chlybiau, cymdeithasau a threfniadaethau eraill ee undebau llafur a chyrff gwirfoddol.

5.3 Diddordebau Anariannol Cynghorwyr

Bydd unrhyw gynghorydd sydd â diddordeb personol mewn unrhyw fater, a'r diddordeb personol yn cael ei ddiffinio gan God Ymddygiad Llywodraeth Leol, yn datgan rhag blaen y diddordeb hwnnw, ond gall aros, siarad a phleidleisio oni bai fod y diddordeb yn glir a sylweddol, ac mewn achos felly bydd yr aelod yn ymadael â'r ystafell. Oni bai fod ystyriaethau perthnasol eraill ni ddylid ystyried ymwneud â busnes unrhyw gorff cyhoeddus gan aelod a fydd wedi ei b/phenodi yn gynrychiolydd y Cyngor. Mewn achos o'r fath dylai'r aelod ddatgan y diddordeb ond gall aros a chymryd rhan lawn yn y cyfarfod.

6. Pleidleisio

6.1 Ar yr amod fod cworwm mewn cyfarfod, bydd pob mater mewn cyfarfod yn cael eu penderfynu gan fwyafrif y cyngorwyr neu gynghorwyr a chanddynt hawl i bleidleisio sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

6.2 Pleidleisir yng nghyfarfod y Cyngor drwy arddangos dwylo, neu, os gofynnir am hynny gan o leiaf dri Chynghorydd, drwy bleidlais gudd.

6.3 Gall cadeirydd y cyfarfod bleidleisio fel Cynghorydd ar unrhyw fater, ac os bydd y pleidleisiau ar ryw fater yn gyfartal, gall iddi/iddo roi pleidlais fwrw os defnyddiodd bleidlais wreiddiol ai peidio.

6.2 Pleidlais gofrestrdig

6.2.1 Gall unrhyw aelod hawlio pleidlais gofrestrdig ar unrhyw achlysur

(Rhaid i'r cais gael ei wneud cyn i'r bleidlais gael ei chymryd).

6.2.2 Gall unrhyw aelod hawlio cofrestru ei bleidlais unigol ar unrhyw achlysur.

7. Trefnu Pwyllgorau / Cyfarfodydd Cyngor

7.1 Ym mhob cyfarfod blynyddol y gweithrediadau cyntaf fydd:

7.1.1 Ethol Cadeirydd

7.1.2 Os bydd y sawl a etholwyd yn Gadeirydd yn absennol, penodir Cadeirydd i'r cyfarfod

7.1.3 Ethol Is-Gadeirydd

7.1.4 Bydd Cadeirydd y Cyngor, onid yw wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei h/anghymwyso, yn parhau yn ei swydd ac yn llywyddu yn y cyfarfod blynyddol nes yr etholir ei h/olynydd yng nghyfarfod blynyddol nesaf y cyngor.

7.1.5 Bydd Is-Gadeirydd y Cyngor, os oes un, onid yw wedi ymddiswyddo neu wedi cael ei h/anghymwyso, yn ei swydd hyd nes yn union wedi ethol Cadeirydd y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol nesaf y cyngor.

7.1.6 Mewn blwyddyn etholiad, os na chafod Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Ni fydd gan Gadeirydd presennol y Cyngor bleidlais wreiddiol ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ond mae'n rhaid iddo/i roi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal.

7.1.7 Mewn blwyddyn etholiad, os cafodd Cadeirydd presennol y Cyngor ei h/ail-ethol yn aelod o'r Cyngor, bydd yn llywyddu yn y cyfarfod hyd nes yr etholwyd Cadeirydd newydd y Cyngor. Gall ddefnyddio pleidlais wreiddiol ar gyfer ethol Cadeirydd newydd y Cyngor ac mae'n rhaid iddo roi pleidlais fwrw os yw'r pleidleisio'n gyfartal

7.1.8 Wedi ethol Cadeirydd y Cyngor a'r Is-Gadeirydd (os oes un) y Cyngor yng nghyfarfod blynyddol y cyngor, bydd gwaith y cyfarfod blynyddol yn cynnwys:

i. Mewn blwyddyn etholiad cyflwynir ffurflenni derbyn swydd gan y Cadeirydd a'r cynghorwyr onid yw'r cyngor yn penderfynu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach. Mewn blwyddyn nad yw'n flwyddyn etholiad, bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno ei ffurflen derbyn swydd onid yw'r cyngor yn penderfynnu y gellir gwneud hyn yn ddiweddarach;

ii. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog

iii. Mabwysiadu'r Rheolau Ariannol

iv. Adolygu stocrestr o asedau'r Cyngor

v. Cadarnhau Asesiad Risg y Cyngor

vi. Cadarnhau gwarant yswiriant

vii. Ethol aelodau'r is-bwyllgorau

viii. Ethol aelodau i gyrff allanol

ix. Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn a chyfarfod blynyddol y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ganlynol

7.2 Wedi hynny dilynir y drefn a osodir yn 7.3 isod.

7.3 Ym mhob cyfarfod heblaw'r Cyfarfod Blynyddol, os bydd y Cadeirydd yn absennol neu'n amharod i llywyddu, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod fydd y swyddogaeth gyntaf. Wedi dilyn 7.1 uchod, oni phenderfyna'r Cyngor yn wahanol am resymau brys, hon fydd trefn y pwyllgorau/cyfarfodydd:

7.3.1 Darllen ac ystyried y Cofnodion; ac os bydd copi wedi'i anfon i bob Cynghorydd erbyn diwrnod cyhoeddi'r wŷs ar gyfer y cyfarfod, gellir cyfrif y cofnodion wedi'u darllen.

7.3.2 Wedi ystyriaeth, cymeradwyo arwyddo'r cofnodion yn gofnod cywir gan Gadeirydd y cyfarfod.

7.3.3 Dilyn rhaglen bwrrpasol y pwyllgor/cyfarfod.

7.3.4 Gall Cadeirydd y cyfarfod neu unrhyw Gynghorydd gynnig newid trefn rhaglen am resymau brys, ac os Cadeirydd y cyfarfod a gynigiodd, gellir rhoi'r cynnig i bleidlais heb ei eilio, a rhoir cynnig o'r fath i bleidlais heb drafodaeth.

8. Cynigion a gyflwynir

8.1 Ac eithrio fel y darperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig oni fydd y cynigydd wedi rhoi rhybudd am ei eiriad a'i gyflwyno i'r Cadeirydd neu'r Clerc o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor. Os yw mater yn codi ar ôl cau'r rhaglen gellir ei gyflwyno i'r Cadeirydd neu'r Clerc a bydd y Cadeirydd yn penderfynu os yw'r mater yn cael ei ystyried fel mater brys.

8.2 Rhaid i bob cynnig neu argymhelliad fod yn berthynol i ryw gwestiwn y mae gan y Cyngor awdurdod arno, neu sy'n effeithio ar diriogaeth ei awdurdod.

8.3 Bydd cynigion ar yr agenda yn cael eu hystyried yn y drefn yr ymddangosant oni chaiff y drefn ei newid yn ôl doethineb cadeirydd y cyfarfod.

9. Rheolau Trafod

9.1 Ni cheir trafodaeth ar y cofnodion ond ynglŷn â'u cywirdeb. Trwy benderfyniad y gwneir cywiriadau yn y cofnodion.

9.2 Rhaid i Gynghorydd gyfeirio'i h/araith at y cwestiwn dan sylw neu at esboniad personol neu gwestiwn o drefn.

9.3 Ni chaiff araith y cynigydd barhau'n fwy na phum munud, ac eithrio trwy ganiatâd cadeirydd y cyfarfod.

9.4 Rhaid i welliant naill ai:

9.4.1 ddileu geiriau, neu

9.4.2 ychwanegu geiriau a dileu geiriau, neu

9.4.3 ychwanegu geiriau.

9.5 Ni cheir cynnig gwelliant sydd i berwyl sy'n negyddu'r cynnig sydd gerbron y Cyngor.

9.6 Os mabwysiedir gwelliant, bydd y cynnig gyda'r gwelliant yn disodli'r cynnig gwreiddiol, a gellir cynnig gwelliannau pellach arno.

9.7 Ni chaiff Cynghorydd (heblaw am y cynigydd) siarad fwy nac unwaith ar unrhyw fater heb ganiatâd cadeirydd y cyfarfod, ac eithrio:

i. i gynnig gwellianta gyflwynir gan gynghorydd arall;

ii. I gyflwyno neu siard ar welliant arall os cyflwynwyd gwelliant i'r cynnig ers iddo/i siarad ddiwethaf;

iii. I wneud pwynt o dref;

iv. I gynnig esboniad personol;

v. Wrth ddefnyddio hawl i ymateb; neu

vi. i gynnig cau'r drafodaeth.

9.8 Pan mae cynnig yn cael ei drafod, ni chaiff unrhyw gynnig arall ei gyflwyno ac eithrio:

i. I gyflywno gwelliant i'r cynnig;

ii. I symud at yr eitem nesaf;

iii. I ohirio'r drafodaeth;

iv. I gynnal pleidlais ar y cynnig;

v. I ofyn na ddylid rhoi gwrandawid pellach i berson neu y dylai adael y cyfarfod;

vi. I gyfeirio'r cynnig at bwyllgor neu is-bwyllgor i'w ystyried;

vii. I eithrio'r cyhoedd a'r wasg

viii. I ohirio'r cyfarfod; neu

ix. I atal rheol(au) sefydlog penodol ac eithrio'r rhai sy'n adlewyrchu gofynion statudol gorfodol

9.9 Cyn cynnal pleidlais ar gynnig gwreiddiol neu sylweddol, rhaid i gadeirydd y cyfarfod fod yn fodlon y cyfarfod y cynnig ei drafod yn ddigonol a bod cynigydd yn cynnig dan sylw wedi defnyddion neu ildio ei hawl i ymateb.

9.10 Rhaid i Gynghorydd sefyll wrth siarad oni rydd cadeirydd y cyfarfod ganiatâd iddo/iddi oherwydd gwendid.

9.11

9.11.1 Ni cheir trafod dyfarniad cadeirydd y cyfarfod ar fater o drefn, neu ar dderbynioldeb esboniad personol.

9.11.2 At gadeirydd y cyfarfod y cyfeirir areithiau'r Cynghorwyr

9.11.3 Os cyfyd rhagor nac un Cynghorydd, bydd cadeirydd y cyfarfod yn galw ar un ohonynt i siarad, a rhaid i bawb arall eistedd.

9.11.4 Os cyfyd cadeirydd y cyfarfod yn ystod unrhyw drafodaeth, rhaid i bob Cynghorydd arall eistedd.

10. Ymddygiad afreolus mewn cyfarfodydd

10.1 Ni fydd unrhyw berson yn atal gwaith cyfarfod nac yn ymddwyn yn dramgwyddus neu'n amrhiodol. Os anwybyddir y rheol sefydlog hon, bydd cadeirydd y cyfarfod yn gofyn i'r cyfryw berson(au) bwylllo neu wella eu hymddygiad.

10.2 Os yw person(au) yn anwybyddu cais cadeirydd y cyfarfod i bwylllo neu wella eu hymddygiad, gall unrhyw gynghorydd neu gadeirydd y cyfarfod gynnig na ddylid rhoi gwrandawriad i'r person mwyach neu y dylie eu heithrio o'r cyfarfod. Cynhelir pleidlais ar y cynig, os caiff ei eilio, heb unrhyw drafodaeth.

10.3 Os yw penderfyniad a wneir o dan reol sefydlog 10.2 uchod yn cael ei anwybyddu, gall cadeirydd y cyfarfod gymryd camau rhesymol i adfer trefn neu er mwyn symud y cyfarfod ymlaen. Gall hyn gynnwys atal y cyfarfod dros dro neu ei gau.

11. Camymddygiad

Gweler y Côt Ymddygiad.

12. Pleidleisio ar Benodiadau

Pan bod rhagor na dau berson wedi'u henwebu ar gyfer unrhyw swydd a lenwir gan y Cyngor ac na cheir mwyafrif clir o bleidleisiau dros yr un ohonynt, dilëir o'r rhestr enw'r sawl a gafodd leiaf o bleidleisiau, a phleidleisir drachefn, gan ddilyn yr un drefn nes cael mwyafrif o bleidleisiau dros un person.

13. Trafodaethau a phenderfyniadau'n effeithio ar wasanaethyddion cyflog y Cyngor

Os cyfyd mewn cyfarfod unrhyw gwestiwn ynglŷn â phenodiad, ymddygiad, dyrchafiad, diswyddiad, cyflog neu amodau gwaith unrhyw un a gyflogir gan y Cyngor, ni cheir ei drafod nes i'r Cyngor neu'r Pwyllgor (yn ôl digwydd) benderfynu a ddylid cau allan y cyhoedd a'r wasg ai peidio.

13. Gwariant

Rhaid awdurdodi archebion talu arian drwy benderfyniad gan y Cyngor, ond mewn achos o frys gwirioneddol, gall y Clerc mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a/neu'r Is-Gadeirydd ddod i benderfyniad arnynt.

14. Cyfarfodydd yn gyffredinol

14.1. Bydd y Cadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu mewn cyfarfod. Os yw Cadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd yr Is-Gadeirydd, os yn bresennol, yn llywyddu. Os yw'r Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn absennol o gyfarfod, bydd cynghorydd a ddewisir gan gynghorwyr sy'n bresennol yn y cyfarfod yn llywyddu yn y cyfarfod.

14.1 Ni chynhelir cyfarfodydd mewn adeiladau sydd adeg y cyfarfod yn cael eu defnyddio ar gyfer cyflenwi alcohol, oni bai nad oes unrhyw adeiladau eraill ar gael yn rhad ac am ddim neu am gost resymol.

14.2 Bydd cofnodion cyfarfod yn cynnwys cofnod manwl-gywir o'r canlynol:

- i. amser a lleoliad y cyfarfod;
- ii. enwau Cynghorwyr sy'n bresennol ac yn absennol;
- iii. buddiannau a ddatganwyd gan Gynghorwyr a phobl heb fod yn gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio;
- iv. a wnaeth Cynghorydd neu bobl heb fod yn Gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio adael y cyfarfod pan oedd materion a chanddynt fuddiannau ynddynt yn cael eu trafod;
- v. a gafwyd seswin cyfranogiad y cyhoedd; ac
- vi. y penderfyniadau a wnaed.

14.3 Mae Cynghorydd neu bobl heb fod yn Gynghorwyr a chanddynt hawliau pleidleisio a chanddynt fuddiant personol neu ragfarnol mewn mater a drafodir mewn cyfarfod sy'n cyfyngu eu hawl i gymryd rhan mewn trafodaeth neu bleidlais ar y mater hwnnw yn gaeth i ymrwymadau yn y Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor.

15. Pwyllgorau y Cyngor

15.1 Gall y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol benodi pwyllgorau sefydlog, a gall ar unrhyw adeg benodi pwyllgorau eraill a fydd yn angenrheidiol.

15.2 Cyn mynd at unrhyw waith arall yn ei gyfarfod cyntaf, rhaid i bob pwyllgor ethol Cadeirydd, a gellir ethol Is-Gadeirydd.

Ac eithrio lle y gorchymynnir fel arall gan y Cyngor (ar gyfer pwyllgor) neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor a'i penododd, traean nifer yr aelodau fydd cworwm y pwyllgor.

16. Is-bwyllgorau y Cyngor

16.1 Ac eithrio lle gorchymynnir fel arall gan y Cyngor (ar gyfer is-bwyllgor) neu gan y Cyngor neu'r pwyllgor a'i penododd, traean nifer yr aelodau fydd cworwm yr is-bwyllgor.

16.2 Yn unol ag amgylchiadau'r is-bwyllgor a barn y Cadeirydd – fe all na fydd rheol 9.6 yn hanfodol.

17. Cyfrifon a Datganiad Ariannol

17.1 Rhaid gosod pob cyfrif sydd i'w dalu, a phob hawliad ar y Cyngor, gerbron cyfarfod y Cyngor, heblaw am os oes angen taliad brys o gyfrif rhwn cyfarfodydd, rhoddir hawl i'r Cadeirydd neu Is-Gadeirydd benderfynnu os bydd y cyfrif yn cael ei dalu ac i'r siec gael ei arwyddo gan y Cadeirydd/Is-Gadeirydd a dau aelod arall o'r Cyngor.

17.2 Wedi diwedd y flwyddyn ariannol, rhaid i'r Clerc rhoi i bob Cynghorydd ddatganiad o dderbyniadau a thaliadau.

18. Mynediad y Cyhoedd a'r Wasg i Gyfarfodydd

18.1 Rhaid i'r cyhoedd a'r wasg gael mynediad i bob cyfarfod o'r Cyngor a'i bwyllgorau; ond gall cyfarfod gau allan y cyhoedd neu'r wasg neu'r ddau dros dro drwy'r penderfyniad hwn:

Yn wyneb natur arbennig a/neu gyfrinachol y mater sydd ar gael ei drafod, mae'n ddymunol er budd y cyhoedd gau allan y cyhoedd a'r wasg dros dro a gorchymynnir hwy i ymadael –

18.2 Ni fydd y cyfnod amser a neilltuir ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd mewn cyfarfod yn unol â rheol 18.1 uchod yn fwy na 3 munud onid yw cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu'n wahanol.

18.3 Yn amodol â rheol 18.2 uchod, ni fydd aelod o'r cyhoed yn siarad am fwy na 3 munud.

18.4 Yn unol â rheol sefydlog 18.1 uchod, ni fydd cwestwin yn gorfod cael ateb yn y cyfarfod nac yn agor trafodaeth ar y cwestiwn. Gall cadeirydd y cyfarfod gyfarwyddo y dylid rhoi ymateb ysgrifenedig neu lafar.

18.5. Bydd person yn sefyll pan yn gofyn i gael siarad ac wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddiodeff anghysur) neu bydd person yn codi ei law/llaw wrth ofyn i gael siarad acyn sefyll wrth siarad (ac eithrio pan mae gan berson anabledd neu os yw'n debyg o ddiodeff anghysur). Gall cadeirydd y cyfarfod benderfynnu ar unrhyw adeg caniatu i berson barhau i eistedd wrth siarad.

18.6 Bydd person sy'n siarad mewn cyfarfod yn cyfeirio ei sylwadau at gadeirydd y cyfarfod.

18.7 Un person yn unig gaiff siarad ar y tro. Os yw mwy nac un person eisiau siarad, bydd cadeirydd y cyfarfod yn penderfynu ym mha drefn y byddant yn siarad.

18.8 Ni chaniateir tynnu lluniau, recordio, darlledu neu ddarlledu trafodion y cyfarfod mewn unrhyw ffordd heb gael cydsyniad ysgrifenedig y Cyngor ymlaen llaw.

18.9 Bydd y wasg yn cael cyfleusterau rhesymol ar gyfer gwneud eu hadroddiad o gyfarfod neu ran ohono y mae ganddynt hawl i fod yn bresennol ynddo.

18.10 Awdurdodir y Cadeirydd, yr Is-Gadeirydd a'r Clerc i wneud unrhyw ddatganiadau i'r cyfryngau ar ran y Cyngor.

19. Materion Cyfrinachol

19.1 Ni chaiff unrhyw Gynghorydd neu aelod o bwyllgor neu is-bwyllgor ddatguddio i neb nad yw'n Gynghorydd unrhyw fater y bydd y Cyngor neu'r pwyllgor (yn ôl y digwydd) yn datgan ei fod yn gyfrinachol gyda sylw penodol i 18.1.

19.2 Ni fydd yr agenda, papurau sy'n ategu agenda a chofnodion y cyfarfod yn datgleu nac mewn unrhyw ffordd arall yn tansilio gwybodaeth gyfrinachol neu sensitif na fyddai am resymau arbenning er lles y cyhoedd.

20. Cyfarfodydd Brys

20.1 Os cyfyd achos ym marn Cynghorwyr bod angen galw cyfarfod brys –

gorchmynnir cais swyddogol wedi ei alw gan gynifer â 2 Cynghorydd i sylw'r Cadeirydd neu'r Clerc, yn datgan y pwnc i'w drafod ac yn tanlinellu union resymeg y brys.

20.2 Awdurdodir yr un hawl i'r Cadeirydd a/neu'r Clerc ar faterion o fyrder a/neu frys.

20.3 Gall cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor gynnull cyfarfod anghyffredin o'r pwyllgor neu'r is-bwyllgor ar unrhyw adeg.

20. Cyfrwng Iaith y Pwyllgorau / Cyfarfodydd

Gweinyddir a gweithredir trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg.

21. Gwrthdroi Penderfyniad Blaenorol

21.1 Ni ellir newid penderfyniad y Cyngor (boed yn gadarnhaol neu'n nacaol) o fewn chwe mis oddigerth naill ai drwy gynnig arbennig, y bydd rhybudd ysgrifenedig ohono yn dwyn enw o leiaf chwe aelod o'r Cyngor wedi ei gyflwyno neu drwy gynnig yn deillio o adroddiad neu argymhelliad pwyllgor.

21.2 Pan fydd cynnig arbennig y cyfeirir ato wedi ei benderfynu ni all gynnig cyffelyb gael ei gyflwyno o fewn chwe mis pellach.

22. Gweithredu Brys

Rhoddir hawl gweithredol i'r Clerc mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd neu'r Is-

Gadeirydd i weithredu mewn perthynas â'r canlynol:

22.2 Pan fydd brys gwirioneddol i weithredu i amddiffyn buddiannau'r Cyngor neu'r cyhoedd gan gynnwys cyfarwyddo Cyfreithiwr i weithredu os bydd angen.

22.2 I ymateb i unrhyw ymgynghoriadau pan na fydd amser yn caniatáu eu cyflwyno i ystyriaeth y Cyngor oherwydd bod dyddiad i dderbyn sylwadau neu i weithredu cyn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

23. Rheoliadau Ariannol – gweler y ddogfen 'Rheoliadau Ariannol : Cyngor Tref Criccieth'.

24. Cyfethol Cynghorydd i lenwi sedd wag.

Pe bai sedd wag ar y Cyngor yn codi yn ystod tymor ei fodolaeth a bod rhaid cyfethol :

24.1 Bydd y Cyngor yn hysbysebu'r sedd wag mewn ymgais i ddenu diddordeb aelodau'r gymuned.

24.2 Bydd y Cyngor yn gosod dyddiad cau.

24.3 Bydd y Clerc yn gofyn am lythyrau cyflwyno gan bob ymgeisydd yn rhoi gwybodaeth sylfaenol amdanynt eu hunain.

24.4 Bydd y Cyngor yn rhoi cyfle i ymgeiswyr roi cyflwyniad byr i aelodau'r Cyngor.

24.5 Bydd aelodau yn pleidleisio yn gudd am ymgeisydd o'u dewis os bydd mwy nag un ymgeisydd ar gyfer unrhyw sedd.

24.6 Os mai un ymgeisydd sydd i unrhyw sedd, yna bydd yr ymgeisydd yn cael ei dderbyn/derbyn i'r sedd trwy bleidlais gudd ar yr amod ei fod/bod yn gymwys.

24.7 Bydd y Clerc yn sicrhau fod yr ymgeisydd yn arwyddo datganiad derbyn swydd.

25. Swyddog Priodol

25.1 Y Swyddog Priodol fydd naill ai (i) y clerc neu (ii) aelodau eraill a enwebywd gan y Cyngor i gyflawni gwaith y Swyddog Priodol pan mae'r Swyddog Priodol yn absennol.

25.2 Bydd y Swyddog Priodol

i. o leiaf 3 diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r Cyngor, pwyllgor ac is-bwyllgor yn rhoi i gynghorwyr ar eu dymuniad naill ai yn bersonol, neu'r drwy post yn ei preswylfeydd, neu ar e-bost wŷs yn cadarhau'r amser, y lle a'r agenda. Gweler 3.3 uchod.

ii. yn rhoi hysbysiad cyhoeddus ar y We o'r amser, y lle a'r agenda o leiaf 3 diwrnod llawn cyn cyfarfod o'r cyngor (ar yr amod fod yr hysbysiad cyhoeddus gydag agenda cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor a gynllunwyd gan gynghorwyr wedi cael ei lofnodi ganddynt.)

iii. yn cynnull cyfarfod o'r Cyngor llawn ar gyfer ethol Cadeirydd newydd i'r Cyngor, a hynny oherwydd y daeth y swydd yn wag;

iv yn cyhoeddi ar y We, gofnodion y Cyngor yn amserol ar ôl pob cyfarfod yn iaith weithredol y Cyngor.

v. yn cadw ffurflenni derbyn swyddi gan gynghorwyr;

vi. yn cadw copi o gofrestr buddiannau pob cynghorydd;

vii yn cynorthwyo gydag ymateb i geisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) 2018 .

viii yn derbyn a danfon gohebiaeth a hysbysiadau cyffredinol ar ran y cyngor ac eithrio pan wnaed penderfyniad yn groes i hynny.

Ix yn rheoli'r gwaith o drefnu, storio, cael mynediad at a dinistrio gwybodaeth a gedwir gan y Cyngor ar bapur ac ar ffurf electronaidd;

X yn trefnu fod gweithredoedd cyfreithiol yn cael eu cyflawni

Xi yn trefnu neu'n rheoli awdurdodi, cymeradwyo a chyfarwyddo'n ddiymdroi ynrhyw daliadau i'w gwneud gan y Cyngor yn unol â rheoliadau arainol y Cyngor

Xii yn cofnodi pob cais cynllunio y cafodd y Cyngor wybod amdanynt ac ymateb y Cyngor i'r awdurdod cynllunio lleol.

Xiii yn cyfeirio cais cynllunio a dderbyniwyd gan y Cyngor at y Cadeirydd neu yn ei h/absenoldeb Is-Gadeirydd y Cyngor.

Xiv trefnu cyfarfod anghyffredin os yw natur y cais cynllunio yn golygu fod rhaid ei ystyried cyn cyfarfod cyffredin nesaf y Cyngor

Xv yn rheoli mynediad at wybodaeth am y cyngor trwy'r cynllun cyhoeddiadau; ac

Xvi yn cadw sêl y Cyngor (os oes un) na chaiff ei ddefnyddio heb wneud penderfyniad i'r perwyl hwnnw.

26. Swyddog Ariannol Cyfrifol

26.1 Bydd y cyngor yn penodi aelod priodol i gyflawni gwaith y Swyddog Ariannol Cyfrifol pan mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn absennol.

27. Cyfrifon a datganiadau cyfrifo

27.1 Mae "arferion priodol" yn cyfeirio at ferswin ddiweddaraf Llywodraethiant ac Atebolrwydd ar gyfer Cyngorau Lleol yng Nghymru – Canllaw i Ymarferwyr.

27.2 Bydd pob taliad gan y Cyngor yn cael ei awdurdodi, ei gymeradwyo a'i wneud yn unol â'r gyfraith, arferion priodol a rheoliadau ariannol y cyngor.

27.3 Bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn rhoi i bob Cyngorydd cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 30 Mehefin, 30 Medi a 31 Rhagfyr ym mhob blwyddyn ddatganiad i grynhoi:

- i. derbyniadau a thaliadau'r Cyngor ar gyfer pob chwarter;
- ii. derbyniadau a thaliadau agregad y Cyngor ar gyfer y flwyddyn hyd hynny;
- iii. y gweddillion sydd ar gael ar ddiwedd y chwarter yr adroddir arno

ac sy'n cynnwys cymhariaeth gyda'r gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol ac sy'n amlygu unrhyw orwariannau gwirioneddol neu bosib.

27.4 Cyn gynted ac y bod modd wedi diwedd y flwyddyn ariannol ar 31 Mawrth, bydd y Swyddog Ariannol Cyfrifol yn darparu:

- i. datganiad i bob cyngorydd yn crynhoi derbyniadau a thaliadau'r cyngor ar gyfer y chwarter diwethaf a'r flwyddyn hyd hynny er gwybodaeth; ac

ii. i'r Cyngor llawn y datganiadau cyfrifo ar gyfer y flwyddyn ar ffurf Adran 1 y datganiad blynyddol, fel sy'n ofynnol gan arferion priodol, i'w hystyried a'u cymeradwyo.

28. Cyfyngiadau ar weithgarwch cynghorwyr

28.1 Onid awdurdodir hynny drwy benderfyniad, ni fydd unrhyw Gynghorydd:

i. yn archwilio unrhyw dir a/neu adeiladau y mae gan y cyngor hawl neu

ii. Yn ddyletswydd i'w archwilio; nac

iii. yn rhoi gorychymnion na chyfarwyddiadau

29. Cyflawni a selio gweithredoedd cyfreithiol

29.1 Ni fydd gweithredd gyfreithiol yn cael ei chyflawni ar ran y Cyngor onid awdurdodwyd hynny drwy benderfyniad;

29.2 Yn amodol ar 29.1, gall unrhyw ddau gynghorydd lofnodi, ar ran y Cyngor, unrhyw weithred sy'n gyfreithiol ofynnol a bydd y Swyddog Priodol yn dyst i'w llofnodion.

30. Ceisiadau am wybodaeth

30.1 Bydd ceisiadau am wybodaeth a gedwir gan y Cyngor yn cael eu trin yn unol â pholisi'r Cyngor ar drin ceisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Data 1998 a Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR) 2018.

30.2 Bydd gohebiaeth oddi wrth, a hysbysiadau a gyflwynir gan, y Comisiynydd Gwybodaeth yn cael ei cyfeirio gan y Clerc at gadeirydd y pwyllgor priodol. Bydd gan y cyfryw bwyllgor y grym i wneud unrhyw beth i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

31. Rheolau sefydlog yn gyffredinol

31.1 Gellir atal rheol sefydlog neu ran o reol sefydlog, ac eithrio un sy'n cynnwys gofynion statudol gorfodol, trwy benderfyniad o ran ystyried eitem ar agenda ar gyfer cyfarfod.

31.2 Rhaid cyflwyno cynnig i ychwanegu at neu amrywio neu ddirymu un neu ragor o reolau sefydlog y Cyngor, ac eithrio un sy'n cynnwys gofynion statudol gorfodol, trwy gyfrwng cynnig arbennig, a rhaid rhoi'r hysbysiad ysgrifenedig amdano gan o leiaf 7 Gynghorydd i'r Swyddog Priodol yn unol â rheol sefydlog 8 uchod.

31.3 Bydd y Clerc yn rhoi copi o reolau sefydlog y Cyngor i Gynghorydd cyn gynted ag y bod modd ar ôl iddo/i gyflwyno ei ffurflen derbyn swydd.

31.4 Bydd penderfyniad cadeirydd cyfarfod ynghylch defnyddio rheolau sefydlog yn y cyfarfod yn derfynol.

31.5 Cymraeg fydd iaith weithredol y Cyngor yn unol â'i pholisi iaith